# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Cwrt Henri

## Adroddiad Gwrthwynebu



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Cynnwys


1. **Crynodeb Gweithredol** .......... 3
2. **Crynodeb o'r Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol** .......... 5
3. **Opsiynau Eraill** .......... 6
4. **Casgliad** .......... 6
5. **Argymhelliad** .......... 6
6. **Y Camau Nesaf** .......... 6

# 1. Crynodeb Gweithredol

**Y Cefndir**

Paratowyd y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Cwrt Henri o 4-11 i 3-11 mewn ymateb i benderfyniad i gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg feithrin ran-amser yn yr ysgol. Byddai hyn yn sicrhau darpariaeth gyson ar draws ysgolion yn yr ardal.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio ar sail yr ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

**Y Broses Ymgynghori**

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin ymgynghoriad statudol ynghylch y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Cwrt Henri o 4-11 i 3-11. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 4 Medi 2025 a 16 Hydref 2025.

Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion o blaid y cynnig i ymestyn oedran derbyn Ysgol Cwrt Henri.

Serch hynny, mynegodd ychydig o ymatebwyr bryder am addasrwydd adeilad yr ysgol ar gyfer plant iau a'r farn nad oedd oedran dechrau cynharach ar gyfer addysg ffurfiol yn briodol i rai plant.

Cafodd crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ei gyhoeddi mewn Adroddiad Ymgynghori ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin ar 26 Ionawr 2026 a'i ystyried gan aelodau'r Cabinet. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), rhoddwyd gwybod i'r holl randdeiliaid bod yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi.

**Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol**

Ar ôl ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ar 26 Ionawr 2026, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor y cynigion a chytunodd i fynd ati i gyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ynghylch y cynnig ar 10 Chwefror 2026 am gyfnod o 28 diwrnod tan 10 Mawrth 2026.

Dim ond **1** sylw a ddaeth i law mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sylw cefnogol a ddaeth i law. Rhaid nodi bod y sylw hwn wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

| Y Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law | |
|---|---|
| Arolwg ar-lein | 1 |
| E-bost | 0 |
| Llythyr | 0 |
| **Cyfanswm** | 1 |

## Yr Adroddiad Gwrthwynebu

Mae'r adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu neu'n cefnogi'r cynnig ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r gwrthwynebiadau neu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law fel a ganlyn:

### Pryderon

Ni chafwyd unrhyw sylwadau a oedd yn mynegi pryder am y cynnig.

### Sylwadau Cefnogol

**Thema 1 –** Dechrau addysg ffurfiol yn gynharach

## 2. Crynodeb o'r Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny:

| **Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Pwynt** | **Y Pwynt a Godwyd** | **Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** |
| **1.** | **Dechrau addysg ffurfiol yn gynharach** | **1** |
| Dywedodd yr ymatebydd y byddai'r cynnig yn caniatáu i blant o'r ardal ddechrau yn eu hysgol leol o oedran cynharach. | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r sylw cefnogol ac yn cytuno ag ef, gan ychwanegu bod sicrhau tegwch i bob plentyn yn ystyriaeth allweddol wrth gyflwyno'r cynigion hyn. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth ran-amser o 3 oed yn statudol a'r rhieni fydd yn penderfynu a ydynt yn credu ei bod yn addas ar gyfer eu plentyn/plant ac a ydynt yn dymuno gwneud cais am le rhan-amser mewn ysgol ai peidio. | | |

## 3. Opsiynau Eraill

Ni chafwyd unrhyw opsiynau eraill i'w hystyried yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

## 4. Casgliad

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafwyd i'r cynnig hwn drwy gydol y broses hyd yn hyn. Mae'r ymateb a ddaeth i law yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol yn dangos bod cyflwyno darpariaeth feithrin ran-amser yn Ysgol Cwrt Henri yn cael ei ystyried yn fuddiol iawn i'r disgyblion, y rhieni a'r gymuned.

Ystyrir mai gweithredu'r cynnig i newid oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11 yw'r dull mwyaf addas o sicrhau mai budd pennaf dysgwyr yw'r flaenoriaeth o hyd a bod y gwaith o gyflwyno darpariaeth feithrin yn cael ei gynllunio'n ofalus a'i weithredu'n effeithiol.

## 5. Argymhelliad

Ar ôl ystyried yr ymateb a ddaeth i law, argymhellir y dylid gofyn am ganiatâd i weithredu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Cwrt Henri o 4–11 i 3–11 heb ddiwygiad.

Nid oes unrhyw gynigion cysylltiedig a fyddai'n atal neu'n tanseilio gweithredu’r cynnig.

Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu manteision y cynnig a nodwyd, gan gynnwys mwy o ddewis i rieni, gwell parhad addysg, gwella cynaliadwyedd yr ysgol, ac effeithiau cadarnhaol ar gyfle cyfartal a datblygu'r Gymraeg.

## 6. Y Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac yna, yn y pen draw, i'r Cyngor Sir, a fydd yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Cwrt Henri o 4-11 i 3-11 o 1 Medi 2026.